

Adroddiad Monitro Blynyddol **Tŷ'r Cwmnïau**

1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016



| Tŷ'r Cwmnïau

1. Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Ebrill 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

Jane Bluff-Higgins, y Prif Ymgynghorydd Polisi, sy'n gyfrifol am weithredu Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau. Mae hi'n gwneud hynny gyda chymorth tîm o siaradwyr Cymraeg sy'n ymdrin â materion pob dydd, a phwyllgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd a pherfformiad.

2. Dehongliad

"TC" yw Tŷ'r Cwmnïau

"Deddf 2006" yw Deddf Cwmnïau 2006

"y Cofrestrydd" yw'r Cofrestrydd Cwmnïau

"PAC" yw Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

"cwmni/PAC Cymreig" yw cwmni neu PAC, yn ôl diffiniad adran 88 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y bo'n berthnasol i PACau), sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru. Adeg corffori, rhaid i gwmni ddweud a yw'n bwriadu lleoli ei swyddfa gofrestredig

yng Nghymru, Lloegr a Chymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fod yn y wlad y maent wedi datgan y lleolir ei swyddfa gofrestredig ynddi.

Caiff cwmni Cymreig dewis cael enw Cymraeg a therfyniad enw Cymraeg (h.y. cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus) a chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Gall cwmni Lloegr a Chymru fod â chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr, ond ni all y cwmni gael enw Cymraeg na therfyniad enw Cymraeg, ac ni chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg.

3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae TC wedi ymrwymo o hyd i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg, a rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, cyflawnodd y canlynol:

3.1 Cyfarfu pwyllgor y Gymraeg bob chwarter (mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr 2015 a mis Mawrth 2016) i sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg TC ac i adolygu'r cynnydd yn unol â'r Cynllun Gweithredu, sydd wedi'i amgáu gyda'r adroddiad hwn. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd gwasanaeth Cymraeg i ystyried y gwasanaethau a gynigir i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

3.2 Parhaodd tîm o siaradwyr Cymraeg o wahanol fannau o fewn TC i ymateb i ymholiadau cwsmeriaid. Cafodd ein Canolfan Gysylltu oddeutu 86,000 o alwadau bob mis, yr oedd oddeutu 2 neu 3 yn alwadau Cymraeg. Hefyd cafodd oddeutu 30 o negeseuon e-bost Cymraeg bob mis o oddeutu 54,500 o negeseuon.

3.3 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cysylltodd 46 o gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith â ni gydag ymholiadau, gan gynnwys:

- 41 o ymholiadau cyffredinol, megis a oedd dogfennau wedi dod i law, sut i fynd i dudalennau Cymraeg ar GOV.UK, sut i newid manylion cyfarwyddwr, addewid i ffeilio cyfrifon a cheisiadau am i ffurflenni papur gael eu hanfon allan;
- 4 llythyr yn apelio yn erbyn cosbau ffeilio hwyr. Nododd un llythyr mai dim ond yn Saesneg roedd y llawlyfr Cosbau Ffeilio Hwyr ar gael ond ers hynny rydym wedi trefnu i fersiwn Gymraeg fynd ar GOV.UK; ac
- Un cais Rhyddid Gwybodaeth (gweler paragraff 3.9)

3.4 Rydym wedi parhau i sicrhau bod y ffurflenni sy'n cael eu ffeilio amlaf, sef 95% o'r dogfennau sy'n cael eu ffeilio ar y gofrestr, ar gael yn ddwyieithog, ar bapur ac yn electronig.

3.5 Roedd yr holl ganllawiau sydd wedi'u creu gan Dŷ'r Cwmnïau ar gael yn ddwyieithog, ac eithrio'r rheiny nad ydynt yn berthnasol i Gwmnïau Cymreig (e.e. canllawiau ar faterion sy'n effeithio ar gwmnïau Albanaidd yn unig).

3.6 Aethom i 2 ddigwyddiad allanol yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef un digwyddiad gan Sterling Integrity ac un digwyddiad gan Fusnes Cymru, lle darparasom siaradwyr Cymraeg a deunydd Cymraeg. Hefyd trefnasom un digwyddiad deddfwriaethol a thri digwyddiad i Gyfarwyddwyr Newydd Eu Penodi yng Nghymru, lle darparasom siaradwyr Cymraeg a deunydd Cymraeg. Yn ogystal, gofynasom am wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i helpu ar ddiwrnodau gwirfoddol, megis yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gydag elusennau lleol, fel Ymchwil Canser Cymru

3.7 Parhaodd cwsmeriaid i ohebu â TC yn Gymraeg a chawsant atebion yn Gymraeg. Hefyd, gallai cwmnïau optio i mewn i'n gwasanaeth dwyieithog, lle caiff yr holl ohebiaeth awtomatig ei hanfon yn ddwyieithog. Mae'r cyfleuster hwn yn cael ei hysbysebu yn ein canllaw Cynnal Busnes yn y Gymraeg ac ar GOV.UK. Optiodd 42 o gwmnïau i mewn i'n gwasanaeth dwyieithog yn ystod y cyfnod adrodd. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, roedd tua 1300 o gwmnïau a 30 PAC, o gyfanswm o 3.68 miliwn sydd ar y gofrestr, wedi nodi eu bod am gael gohebiaeth ddwyieithog yn awtomatig.

3.8 Cafwyd 140 o setiau o gyfrifon Cymraeg oddi wrth gwmmniau Cymreig, sef 58 yn llai na'r llynedd. Cafodd pob un o'r cyfrifon hyn eu cyfieithu i'r Saesneg ar gyfer y cofnod cyhoeddus. Mae dyletswydd ar TC i gyfieithu rhai dogfennau sy'n cael eu ffeilio o'r Gymraeg i Saesneg. Hefyd, cyfieithasom i'r Gymraeg oddeutu 100 o ddarnau eraill er mwyn bodloni gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg, sef 23 yn fwy na'r llynedd. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau, canllawiau, a gwaith prosiect, ar gyfer y wefan a'r gwasanaethau ar-lein. Rydym wedi parhau i ddefnyddio meddalwedd cyfieithu arbenigol i helpu i ddarparu cyfieithiadau cyson i'r Gymraeg.

3.9 Cawsom un cais Rhyddid Gwybodaeth yn Gymraeg a darparwyd ymateb Cymraeg o fewn y cyfnod statudol.

3.10 Rhoddwyd i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith y newyddion diweddaraf am derfynau amser ffeilio a digwyddiadau a hysbysiadau eraill trwy ein gwefan, gohebiaeth ddwyieithog a'n cyfrif Cymraeg ar Twitter @TyrCwmniau. Cawsom 3 'Thrydariad' yn Gymraeg a gafodd atebion yn Gymraeg.

3.11 Roedd yr holl contractau a gyhoeddwyd yn cynnwys cymal i sicrhau bod ein partneriaid gwasanaethu'n cydymffurfio â rhwymedigaethau TC o ran y Gymraeg.

3.12 Rhoesom gyhoedduswydd i ddigwyddiadau Cymraeg yn yr ardal leol, i'r aelodau hynny o'r staff a allai fod â diddordeb mewn mynd iddynt.

3.13 Cynaliasom 'Glwb Cymraeg' bob wythnos yn ystod mis Awst i aelodau o'r staff oedd eisiau ymarfer siarad Cymraeg pan nad oedd dosbarthiadau'n cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r haf.

3.14 Daeth siop lyfrau lleol sy'n arbenigo mewn llyfrau a chardiau Cymraeg i mewn yn ystod yr awr ginio ar nifer o achlysuron.

3.15 Sicrhassom for yr ymgynghoriad ar newidiadau i'n hystadegau ar gael yn gael yn Gymraeg ar GOV.UK

3.16 Ym mis Mehefin 2015, mis Tachwedd 2015 a Mis Mawrth 2016 aethom i gyfarfod o bwylgor adrannau'r llywodraeth ganolog sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Diben y pwyllgor hwn yw cynorthwyo â datblygu gwasanaethau cwsmeriaid Cymraeg o ansawdd da ar draws adrannau'r llywodraeth ganolog.

4. Prif-ffrydio'r Gymraeg

Ystyriodd TC y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

4.1 Rydym wedi parhau i ystyried ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o gychwyn cyntaf ein holl brosiectau trwy gynnwys y Gymraeg yn rhestrau cyfeirio'r holl reolwyr prosiect, ac mewn cynlluniau datblygu eraill.

4.2 Drwy gydol y cyfnod, mae TC, ar y cyd â'n rhiant adran, yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, wedi bod yn paratoui ar gyfer rhoi'r Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ar waith. Rydym wedi bod yn datblygu ein gwasanaethau i gymryd ystyriaeth o'r newidiadau i'n gwasanaethau ffeilio o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd, a bydd y gallu i ffeilio yn Gymraeg ar gael. Rhoddwyd mesurau ar waith ar 10 Hydref 2015 a 6 Ebrill 2016 a chaiff y mesurau terfynol eu rhoi ar waith ar 30 Mehefin 2016. Bydd canllawiau wedi'u cynhyrchu gan Dŷ'r Cwmnïau ar gael yn Gymraeg ar GOV.UK.

4.3 Rydym wedi parhau i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar GOV.UK ac wedi cynnal trafodaethau gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) i barhau i wella'r gwasanaethau hyn.

5. Dangosyddion perfformiad

Yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd 12,627 o gwmnïau Cymreig, a 38 o PACau Cymreig wedi eu corffori. Roedd cyfanswm o 611,372 o gwmnïau a 8,453 o PACau wedi eu corffori yn ystod y cyfnod hwn.

Erbyn diwedd y cyfnod o dan sylw, roedd 34,647 o gwmnïau Cymreig a 278 o PACau Cymreig ar y gofrestr, o'i gymharu â chyfanswm o 3,678,860 o gwmnïau a 60,181 o PACau.

Erbyn diwedd y cyfnod o dan sylw, roedd 1,319 o gwmnïau Cymreig a 17 o PACau Cymreig wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg ar y gofrestr.

5.1 Gwasanaethau'r Rheng Flaen

Canran a nifer y staff dwyieithog:

Canolfan Gyswilt TC

Mae tri aelod llawn-amser ac un aelod rhan-amser o staff y Ganolfan Gyswilt yn ddwyieithog. Mae yna ofyniad contractiol bod ein cyflenwr yn darparu 2 siaradwr Cymraeg.

Os oes cwsmer yn gofyn yn benodol am gael siarad â siaradwr Cymraeg, ond nad oes un ar gael, rydyn ni'n cynnig y dewis i'r cwsmer o barhau â'r sgwrs yn Saesneg, neu ofyn am rif ffôn i gysylltu â'r cwsmer fel bod siaradwr Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Y Dderbynfa Gyhoeddus

Nid oes unrhyw staff dwyieithog yn nerbynfa TC. Mae'r staff yn gallu cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg ac mae yna arwydd amlwg sy'n rhoi gwybod i ymwelwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gais. Mae gan staff y dderbynfa restr o staff sy'n medru'r Gymraeg y gallant gysylltu â nhw os gwneir cais Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw ymwelwyr am gael trafod busnes TC yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Llinell gymorth dros y ffôn

Rydym wedi parhau i ddarparu un rhif ffôn allanol penodol i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, a gafodd 9 galwad yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd y tîm o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau Cymraeg hefyd.

5.2 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth iaith

Nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg hyd lefel cymhwyster ardystiedig:

Cynigiodd TC chwe chwrs Cymraeg, oedd yn cael eu rhedeg gan Brifysgol De Cymru: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2, Lefel Sylfaen 2, Lefel Uwch 1, Lefel Uwch 4 a Hyfedredd.

- Yn y dosbarth Lefel Mynediad 1, a ddechreuodd ym mis Medi 2015, roedd 11 dysgwr, ac yn y dosbarth Lefel Mynediad 2, a ddechreuodd ym mis Medi 2014, roedd 5 dysgwr. Roedd y ddau ddosbarth yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor ac yn dilyn llyfr cwrs CBAC *Cwrs Mynediad*.
- Roedd 8 aelod o'r staff yn y dosbarth Lefel Sylfaen 2. Roedd y dosbarth yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor ac yn dilyn llyfr cwrs CBAC *Cwrs Sylfaen*.

- Roedd y dosbarth Lefel Uwch 1 yn cyfarfod bob wythnos yn ystod y tymor ac yn dilyn llyfr cwrs Prifysgol Caerdydd Pontio/Uwch – Llyfr Uwch 1. Roedd 6 aelod o'r staff yn y dosbarth.
- Cynhaliwyd y dosbarth Lefel Uwch 4 bob wythnos a chynhaliwyd dosbarth ar y cyd â'r Grŵp Hyfedredd bob mis. Nid oedd y grwpiau hyn yn dilyn llyfr cwrs gan fod y tiwtoriaid yn paratoi sesiynau wedi'u seilio ar anghenion y dysgwyr ac yn cynnwys senarios cysylltiedig â'r gwaith, rhai ysgrifenedig a rhai llafar. Roedd 5 aelod o'r staff yn y Grŵp Lefel Uwch 4 a 9 aelod o'r staff yn y dosbarth Hyfedredd.

Nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

- Rydym wedi atgoffa'r holl staff yn rheolaidd am ein hymrwymadau o ran y Gymraeg trwy hysbysiadau ar safle mewnwydd TC. Yn ystod y cyfnod adrodd, rhoddwyd systemau cyfathrebu mewnol newydd ar waith, sef *Yammer*. Byddwn yn atgoffa'r staff yn rheolaidd am ein hymrwymadau o ran y Gymraeg ar *Yammer*. Mae tudalennau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg yn y busnes wedi cael eu creu ar *Yammer*, yn ogystal â thudalen gymdeithasol Gymraeg.

5.3 Technoleg Gwybodaeth

Nifer y systemau TG a gafodd eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd:

- Nid aseswyd unrhyw systemau TG gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd, ond mae ein systemau meddalwedd creiddiol yn rhai masnachol gan fwyaf, felly rhywbeth rydym yn dewis ei gorffori yw cynnwys y Gymraeg

Nifer y cynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn sgil asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd:

- Amherthnasol

5.4 Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion:

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd TC 5 o gwynion mewn perthynas â'i wasanaethau Cymraeg.

i) Roedd un gŵyn yn ymwneud ag atebion e-bost awtomatig oddi wrth TC nad oeddent yn gyson o ran y Gymraeg a ddefnyddiwyd. Roedd y cwsmer yn derbyn y defnyddiwyd Cymraeg cywir yn y ddau achos, ond gofynnodd am i'r negeseuon e-bost gael eu diwygio fel

eu bod yn darllen yr un peth. Anfonwyd ymddiheuriad at y cwsmer ac addawyd y câi'r negeseuon e-bost eu diwygio ar y cyfle cyntaf.

ii) Roedd cwyn arall yn ymwneud â chofrestru arwystl lle'r oedd y weithred yn Gymraeg. Gwrthodwyd hon gan nad anfonwyd cyfieithiad ardystiedig i'r Saesneg gyda hi, fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol ar gyfer y cofnod cyhoeddus. Nid oes rhwymedigaeth ar y Cofrestrydd i ddarparu cyfieithiad Saesneg o weithred Gymraeg. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau'r Cofrestrydd Cwmnïau a Gwneud Cais am Ddileu o'r Gofrestr 2009 yn nodi'r hyn mae'n rhaid i'r Cofrestrydd ei gyfieithu i'r Saesneg, o'r Gymraeg, ar gyfer y cofnod cyhoeddus. Cafodd y ddogfen ei gwrthod yn gywir. Ers hynny mae'r cwmni wedi ffeilio'r ddogfen ynghyd â chyfieithiad Saesneg.

iii) Cafwyd 3 cwyn wahanol oddi wrth gwsmeriaid a gafodd llythyrau uniaith Saesneg pan oeddent wedi gofyn am ohebiaeth ddwyieithog. Anfonwyd llythyrau yn ymddiheuro, ynghyd â fersiwn Gymraeg o'r llythyr, at y cwsmeriaid. Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i unioni hyn.

6. Casgliad

Bydd y Prif Ymgynghorydd Polisi, Tîm o Siaradwyr Cymraeg a'r Pwyllgor Iaith yn parhau i sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn dal i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i raglen raddol o welliannau parhaus i'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Cynllun Gweithredu: Tŷ'r Cwmnïau

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
---------------------	----------------	------------	-----------------------------

1. Deddfwriaeth a Mentrau

Adolygu'r Cynllun Gweithredu pob chwarter	Pob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Adolygwyd cynnwys y Cynllun Gweithredu fel rhan o waith Pwyllgor y Gymraeg a gyfarfu ym mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr 2015 a mis Mawrth 2016.
Adolygu'r Cynllun Strategol pob chwarter i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr iaith Gymraeg	Pob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Rydym wrthi'n adolygu ein Cynllun Strategol pum mlynedd. Rhoddir ystyriaeth i'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg.
Ystyried sut y bydd polisiau, projectau a datblygiadau newydd yn cyd-fynd â'r ymrwymadau a bennir yn y Cynllun Iaith	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydyn ni wedi parhau a byddwn yn parhau, i ystyried ein Cynllun Iaith wrth gychwyn polisiau, projectau a datblygiadau newydd, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos.
Galluogi cwmnïau Cymreig i fanteisio ar "Brofiad Cymraeg" wrth gorffori	Hydref 2012	Cyflawni'r Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ym mis Hydref 2012.
Galluogi cwmnïau Cymreig i fanteisio ar wasanaeth corffori ar-lein cyflawn yn Nhŷ'r Cwmnïau	Mawrth 2013	Cyflawni'r Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ar 6 Ebrill 2013

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Gwella'r gwasanaeth Newid Enw trwy WebFiling er mwyn cynhyrchu cyfieithiad o'r dystysgrif (sy'n destun adolygiad ar hyn o bryd)	Mawrth 2013	Y Gyfarwyddiaeth Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Wrth inni ddatblygu un gwasanaeth ar-lein i gwsmeriaid, mae ein tîm prosiect wedi cytuno i ddatblygu mwy o wasanaethau Cymraeg nag sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys gwasanaeth newid enw. Mae rhoi mesurau o dan Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (SBEE) ar waith wedi golygu bod y rhan fwyaf o'n hadnoddau yn cael eu defnyddio ar y Ddeddf a byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r un gwasanaeth ar-lein ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith yn llawn ar 30 Mehefin 2016.

2. Staffio

Cynnal yr hyfforddiant cyfredol yn yr iaith Gymraeg, gan dargedu sgiliau llafar	Yn parhau	Adnoddau Dynol	Gweler yr adroddiad
Sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael yn yr holl brif feysydd gweithredu er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Yn parhau	Cyfarwyddwyr	Gweler yr adroddiad
Hyrwyddo gofynion TC o dan y Cynllun Iaith yn fewnol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i droi am gymorth.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydym yn atgoffa'r staff yn rheolaidd am ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith Gymraeg ar ein safle mewnwyd mewnol, a byddwn yn parhau i wneud hynny ar y gwasanaeth cyfathrebu mewnol newydd.
Cynnal tîm o staff ar draws TC er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ac i gynnal cyfarfodydd cyson i drafod problemau a chynnydd.	Yn parhau	Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Mae tîm y Gymraeg wedi parhau i fod ar gael ac wedi cyfarfod yn rheolaidd

3. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, hysbysebion a datganiadau i'r wasg

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu'r holl ddigwyddiadau yng Nghymru lle mae presenoldeb gan Dŷ'r Cwmnïau	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Gweler yr adroddiad
Sicrhau bod llenyddiaeth Gymraeg ar gael mewn digwyddiadau yng Nghymru	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Wedi'i gwblhau
Sicrhau bod hysbysebion a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg	Yn parhau	Adnoddau Dynol/ICT	Lle cyhoeddir hysbysebion swyddi yn y wasg Gymraeg maent yn ddwyieithog, fodd bynnag nid oes cyfleuster ar gyfer hysbyseb swydd ddwyieithog ar wefan swyddi'r Gwasanaeth Sifil.

4. Cyhoeddiadau, a ffurflenni

Sicrhau bod holl gyhoeddiadau Cymraeg TC yn cael eu diweddarw'r un pryd â'r fersiynau Saesneg.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn parhau i geisio sicrhau y caiff cyhoeddiadau Cymraeg eu diweddarw ar yr un pryd â chyhoeddiadau Saesneg.
Sicrhau bod yr holl ffurflenni statudol Cymraeg yn cael eu diweddarw'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Gweler yr adroddiad
Monitro'r defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol.	Yn parhau	Datblygiad Newid Busnes	Mae TC yn parhau i sicrhau y caiff fersiynau Cymraeg o ohebi-aeth eu cynhyrchu.

5. Gwefannau

Sicrhau bod y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarw'r un pryd â'r fersiwn Saesneg, pan fo hynny'n briodol, a bod y wybodaeth ar y wefan Gymraeg yn gyfoes	Yn parhau	Deall y Cwsmer	Rydym wedi parhau i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar GOV.UK.
--	-----------	----------------	--

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
---------------------	----------------	------------	-----------------------------

6. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Sicrhau bod modd i gwsmeriaid ofyn am siaradwr Cymraeg os ydynt am gyflawni eu busnes yn Gymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad.
--	-----------	---------------------------	----------------------

7. Cyfathrebu ar Ffôn

Sicrhau bod cwsmeriaid sydd am gyflawni eu busnes yn Gymraeg yn gallu gofyn (yn Saesneg) am gael siarad â siaradwr Cymraeg.	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad
---	-----------	---------------------------	---------------------

8. Arwyddion

Sicrhau bod yr holl arwyddion cyhoeddus yn swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau' r Adeiladau	Byddwn yn parhau i fonitro hyn
--	-----------	---------------------------	--------------------------------

9. Cwynion

Sicrhau bod cwynion am wasanaethau Cymraeg TC yn cael eu harchwilio'n llawn a'u datrys yn brydlon, yn unol â threfn gwynion arferol TC	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad
Monitro cwynion am wasanaethau dwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad